# Polisi Rheoli Rhwydwaith Cyflawni (Prentisiaethau) CAVC

## Ymrwymiad

Mae CAVC wedi ymrwymo i weithio gydag eraill i wella cynnig dysgu ei rwydwaith, sydd wedi'i alinio â nodau strategol CAVC a Llywodraeth Cymru. Bydd CAVC yn datblygu ac yn cynnal perthnasoedd ardderchog gyda'i rwydwaith cyflawni er mwyn sicrhau bod y cynnig dysgu yn amrywiol, yn hyblyg ac i'r safon orau.

## Cwmpas a Diben y Polisi

Mae'r polisi hwn yn trafod dull CAVC o gaffael a rheoli ei rwydwaith cyflawni.

Mae'r polisi'n berthnasol i'r holl ddarpariaeth bresennol a'r darpar ddarpariaeth sy'n cael ei is-gontractio er mwyn cynnal Prentisiaethau.

## Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol ag amodau adolygu'r polisi) a bod cyngor priodol yn cael ei rannu ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd a fydd yn cymeradwyo'r polisi.

Mae Uwch Reolwyr yn CAVC a'r rhwydwaith cyflawni yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro ac ymateb i ddata ansawdd a pherfformiad a defnyddio'r dadansoddiad hwn o'r data i lywio cynllunio i'r dyfodol a gwella cynrychiolaeth, cyfranogiad a llwyddiant aelodau'r rhwydwaith a'u dysgwyr.
- Sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu mewn ffordd deg a chyfartal yn unol ag egwyddorion Llywodraeth Cymru.

Mae uwch aelodau staff ansawdd yn CAVC a'r rhwydwaith cyflawni yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod y polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn parhau i fod yn gyfredol.
- Sicrhau bod pob elfen ar y rhwydwaith cyflawni yn bodloni gofynion Manyleb Rhaglen Llywodraeth Cymru a gofynion adolygu Estyn. Mae hyn yn cynnwys paratoi ar gyfer unrhyw arolygiad Estyn a/neu weithgarwch adolygu.
- Cynnal hyfforddiant a datblygu priodol a chymorth ledled y rhwydwaith cyflawni i sicrhau bod modd iddynt ddilyn y polisi.
- Sicrhau bod camau priodol ar waith i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi, a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella ymarfer.

Mae pob aelod staff yn CAVC a'r rhwydwaith cyflawni yn gyfrifol am:

- Gweithredu yn unol â'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Mynd i ddigwyddiadau datblygu proffesiynol perthnasol a manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt i ddatblygu eu dysgu proffesiynol.

Mae dysgwyr ledled y rhwydwaith cyflawni yn gyfrifol am:

- Fynd i bob elfen ofynnol o'r ddarpariaeth.
- Darllen a dilyn pob polisi a gweithdrefn.
- Llenwi arolygon llais y dysgwyr a chymryd rhan mewn grwpiau ffocws os oes angen.

## Caffael a Diwydrwydd Dyladwy

Cyn mynd i mewn i unrhyw drefn gontractio, bydd proses ddiwydrwydd dyladwy gynhwysfawr, sy'n galluogi CAVC i adolygu'r meysydd canlynol:

- Sefyllfa Ariannol
- Staffio/Gallu
- Polisïau a Gweithdrefnau
- Cydymffurfio (Iechyd a Diogelwch, Diogelu Data a Diogelwch Gwybodaeth)
- Cylch Ansawdd
- Diogelu ac Atal
- Perfformiad
- Arweinyddiaeth a Rheoli
- Llesiant, Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad

Caiff y wybodaeth ddiwydrwydd dyladwy ei hadolygu gan y staff CAVC canlynol, cyn iddi gael ei chyflwyno i Weithrediaeth CAVC er mwyn ei chymeradwyo:

- Pennaeth Dysgu ar sail Gwaith
- Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu CAVC
- Rheolwr Ansawdd a Chontractau Dysgu ar sail Gwaith
- Rheolwr Cydymffurfiaeth a Chontractau Dysgu ar sail Gwaith
- Swyddogion Sicrwydd Ansawdd
- Rheolydd Ariannol Grŵp CAVC

Unwaith y bydd y Weithrediaeth CAVC wedi cymeradwyo, bydd y Pennaeth Dysgu ar sail Gwaith yn creu cytundeb lefel gwasanaeth.

## Hyfforddiant a Chymorth Cychwynnol

Bydd darparwyr newydd yn cael hyfforddiant a/neu gefnogaeth yn y meysydd hanfodol canlynol:

- Cydymffurfiaeth Contractau a Chyllid
- Iechyd a Diogelwch a Diogelwch Gwybodaeth
- Diogelu ac Atal
- Cylch Ansawdd gan gynnwys Taith y Dysgwr
- Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Mae CAVC yn cynnig hyfforddiant a chymorth i'w rhwydwaith cyflawni mewn meysydd heblaw am y rhai a restrir; mae'n bosibl y bydd hyfforddiant ychwanegol ar gael yn ystod y camau cychwynnol os bydd meysydd datblygu'n cael eu nodi yn ystod y broses Ddiwydrwydd Dyladwy.

Darperir y gweithgareddau cymorth canlynol o fewn mis o ddyddiad dechrau'r contract.

- Ymweliad Cymorth - Gweinyddiaeth data, cyllid a systemau
- Ymweliad Rheoli Contract
- Ymweliad Cydymffurfiaeth - Cydymffurfiaeth archwilio a chefnogaeth i'r broses
- Ymweliad Cymorth Ansawdd (cynllun cymorth/gweithredu Diwydrwydd Dyladwy)

Rydym hefyd yn ceisio darparu'r canlynol:

- Sicrhau bod dealltwriaeth a rennir o weledigaeth a gwerthoedd craidd CAVC, a'u bod yn ymwybodol o'u rôl o ran helpu i gyflawni'r rhain
- Rhoi'r un cyfle i bawb i rannu a chymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a hyfforddiant perthnasol i lywio gwelliant ansawdd ledled y rhwydwaith cyflawni.
- Hyrwyddo'r defnydd o ystod lawn o gyfleoedd datblygu er budd unigolion ac anghenion busnes.
- Rhoi hyfforddiant a chymorth yn rhan o'r Fframwaith Archwilio Cyffredin er mwyn paratoi ar gyfer unrhyw weithgareddau archwilio.
- Cydlynu a thracio'r holl weithgareddau Dysgu Proffesiynol a rennir ledled y rhwydwaith cyflawni.

## Bandiau Risg y Rhwydwaith Cyflawni

Bydd sgoriau risg Is-gontractwyr yn cael eu cofnodi ar Fatrics Risg sy'n ystyried perfformiad, cydymffurfiaeth a chynnydd yn erbyn camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

| Bandiau Risg | Disgrifiad | Mathau o Ymyrraeth |
|---|---|---|
| **Gwyrdd** | Cydymffurfio â phob elfen/meysydd datblygu mewn meysydd â llai o risg | Lefelau isel o fonitro a chymorth yn afreolaidd |
| **Oren** | Gwneud cynnydd sylweddol bob mis ym mhob maes | Lefelau uwch o gymorth a monitro gyda chyfnodau gwella priodol |
| **Coch** | Ddim yn cydymffurfio mewn meysydd risg uchel | Cynlluniau gwella/gweithredu gan gynnwys terfynau amser i gael eu cytuno er mwyn lleihau risg. |

Bydd diffyg cydymffurfio, perfformio a chynnydd mewn o leiaf un o'r meysydd uwch yn ystod cyfnod adolygu chwarterol/diffyg gwelliant ar ôl ymyrraeth yn dilyn Gweithdrefn Rhif 170, gall hyn arwain at ddileu darparwyr o'r rhwydwaith cyflawni.

## Hawl i Ddysgu Proffesiynol

Bydd gan bob aelod staff yn y rhwydwaith cyflawni fynediad i Skillgate at ddibenion Dysgu Proffesiynol. Mae angen i'r holl staff gyflawni'r Unedau Gorfodol ar gais. Gall staff gael mynediad rhwydd i bob modiwl CPD arall ar Skillgate ar sail achlysurol.

Bydd y prif ddarparwr yn trefnu digwyddiad CPD blynyddol ar gyfer pob aelod staff, ac mae disgwyl i Ddarparwyr neilltuo amser i'w staff gael mynychu.

## Cyfraniad a Thaliadau Is-gontractwyr

Ni fydd didyniadau Cyfraniad Is-gontractwyr safonol CAVC yn uwch na 20%. Bydd y ganran ddidyniad yn dechrau ar 20%, ac yn cael ei chytuno'r ffurfiol gyda'r darparwr cyn dechrau ar drefn is-gontractio. Mae'r didyniad hwn yn gyfraniad at gost gweithgareddau gweinyddu'r contract a gynhelir gan CAVC. Bydd y swm sy'n cael ei ddidynnu yn cyfrannu at gostau CAVC o ran gweinyddu'r contract, a bydd yn amrywio rhwng is-gontractwyr i efelychu'r lefel gefnogaeth ac ymyrraeth sy'n ddisgwyliedig gan CAVC ar gyfer is-gontractwyr unigol, gan ystyried asesiad risg ar sail profiad blaenorol (lle bo'n berthnasol) a'r broses ddiwydrwydd dyladwy. Bydd unrhyw newid i'r ganran yn cael ei drafod ymlaen llaw a'i gytuno'n ysgrifenedig gyda'r is-gontractiwr, un ai ar ddechrau'r cyfnod contraction, neu yn ystod y flwyddyn gontract er mwyn ymateb i amgylchiadau newidiol.

Bydd taliadau cyllido contractau yn cael eu cyfrifo a'u cysoni'n fisol. Unwaith y bydd y data LLWR Inform yn cael ei ryddhau gan Lywodraeth Cymru, telir y taliadau net yn fisol mewn ôl-daliadau, ar y 25ain (neu'r diwrnod gwaith agosaf). Bydd gwybodaeth ar gyllid a thaliadau'n cael ei hanfon ymlaen i bob aelod o'r rhwydwaith bob mis. Mae'n rhaid i ddarparwyr reoli eu dyraniadau contract yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

## Cymorth a Sicrwydd Ansawdd

Mae CAVC yn gyfrifol am gefnogi pob aelod o'i rwydwaith cyflawni er mwyn cynnal darpariaeth o safon uchel sy'n bodloni anghenion dysgwyr ac sy'n mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau'r rhanddeiliaid. Defnyddir y ffi sy'n daladwy er mwyn darparu'r gefnogaeth ganlynol:

- Rheolwr Contract a Swyddog Sicrwydd Ansawdd penodol
- Gweithgorau
- Archwiliadau cydymffurfio
- Prosesu/cymorth Gweinyddu Data
- Adroddiad Hunanasesu a Chynllun Datblygu Ansawdd - dadansoddi a chymorth
- Cymorth a pharatoi ar gyfer materion yn ymwneud ag Estyn ac archwiliadau
- Gwybodaeth, Cyngor a Chanllawiau Parhaus
- Trwyddedau system Maytas (os oes angen)
- Diogelwch Gwybodaeth (os oes angen)
- Cymorth a chanllawiau Iechyd a Diogelwch
- Cymorth a chanllawiau Diogelu/Atal
- Cymorth a chanllawiau ar faterion yn ymwneud ag ADY a llesiant dysgwyr
- Hyfforddiant a Datblygiad Staff (gan gynnwys trwyddedau Skillgate)
- Gweinyddu'r arolwg Llais y Dysgwr blynyddol a darparu'r canlyniadau a'r Cynlluniau Gweithredu
- Y Gymraeg - cymorth a chanllawiau a'r Cynllun Gweithredu
- Amrywiaeth a Chydraddoldeb – cymorth a chanllawiau a'r Cynllun Gweithredu

## Ymweliadau Cymorth

Bydd Swyddogion Sicrwydd Ansawdd CAVC yn cynnal ymweliadau cymorth gydag aelodau newydd o'r rhwydwaith cyflawni yn rheolaidd, yn ôl eu Sgôr Risg. Bydd yr ymweliadau hyn yn cynnwys ystod o feysydd o fewn pum maes archwilio Fframwaith Archwilio Cyffredin Estyn, ynghyd ag unrhyw Gynlluniau Gweithredu ychwanegol a mesurau Cynllun Datblygu Ansawdd.

## Cymorth Ansawdd

- Bydd gan bob aelod o'r rhwydwaith cyflawni Swyddog Sicrwydd Ansawdd penodol er mwyn rhoi cefnogaeth.
- Gan ddefnyddio'r Adroddiad Hunanasesu a'r Cynlluniau Datblygu Ansawdd, bydd Swyddogion Sicrwydd Ansawdd yn datblygu Cynllun Datblygu Ansawdd unigol ar gyfer pob darparwyr. Bydd y ddogfen hon yn amlinellu meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn gontract, drwy ymweliadau adolygu ansawdd cyswllt, a fydd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gynlluniau ar gyfer arsylwi darpariaeth, samplo prosesau gweithredu ac ati. Nod y gweithgareddau hyn yw cefnogi darparwyr i ddilysu meysydd arfer da, a/neu gefnogi gwelliant parhaus.
- Cyfarfodydd adolygu misol, lle bydd y Swyddog Sicrwydd Ansawdd a chysylltiadau allweddol yn adolygu canlyniadau'r ymweliadau Cynllun Datblygu Ansawdd

Bydd ymweliadau cymorth ychwanegol hefyd ar gael i bob darparwr ar sail barhaus:

- Cymorth Gweinyddu Data - ymweliad blynyddol (os oes angen)
- Cymorth Cyllid a Chontractau - ymweliad blynyddol.

## Cyfarfodydd/Gweithgorau y Rhwydwaith Cyflawni

Mae CAVC yn rhoi cyfle i staff a chynrychiolwyr o'r rhwydwaith cyflawni gwrdd bob mis er mwyn diweddaru gwybodaeth a gofynion, rhannu arfer da, rhwydweithio a llywio gwelliant ansawdd.

Ymhlith y cyfarfodydd mae Bwrdd Strategol QSA (a fydd yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Bennaeth), Tîm Rheoli QSA (a fydd yn cael ei gadeirio gan y Pennaeth Dysgu ar sail Gwaith) ac Ansawdd QSA (a fydd yn cael ei gadeirio gan y Rheolwr Ansawdd).

Ar hyn o bryd, mae CAVC yn cynnal Gweithgor Sgiliau Hanfodol, y mae darparwyr SH yn ei fynychu o bob rhan o'r rhwydwaith cyflawni.

Bydd CAVC yn trefnu ac yn hwyluso'r cyfarfodydd, sy'n cael eu cynllunio a'u cyfathrebu mewn da bryd

- Sicrhau bod cyfarfodydd yn bwrpasol, yn gydweithredol ac yn rhoi cyfle i bawb sy'n bresennol gyfrannu a chymryd rhan lawn



| | |
|---|---|
| **Rhif y Diwygiad:** | - |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | 24/03/2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 24/03/2026 |

- Sicrhau eu bod nhw'n cael gwybod yn llwyr am yr holl newyddion a'r diweddariadau presennol, a rhannu'r wybodaeth hon mewn ffordd amserol ac ar ffurf briodol yn eu sefydliadau eu hunain

Mae angen i Is-gontractwyr:

- Enwebu cynrychiolwyr addas i fynd i grwpiau
- Sicrhau bod gan CAVC y rhestr fwyaf diweddar o gynrychiolwyr
- Sicrhau bod cynrychiolwyr o'u sefydliadau yn mynd i o leiaf 90% o'r cyfarfodydd a gynlluniwyd

Mae angen i gynrychiolwyr a enwebwyd sy'n mynd i grwpiau fod â'r canlynol:

- Gwybodaeth briodol ac awdurdod i gytuno ar feysydd trafod
- Bod yn hyderus ac yn gymwys i gyfathrebu'r wybodaeth yn eu sefydliadau eu hunain
- Rhwydweithio ag aelodau eraill
- Adnabod ac adrodd am yr angen ar gyfer dysgu proffesiynol staff

## Cyfleoedd Allanol fel Prif Ddarparwr

Bydd CAVC yn rhannu gwybodaeth ac yn annog rhyngweithio pan fo'n bosibl o ran cyfleoedd i gael hyfforddiant gan sefydliadau allanol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Llywodraeth Cymru
- Estyn
- NTfW

Bydd Uwch Reolwyr CAVC a Rheolwyr y rhwydwaith cyflawni neu staff penodol yn gyfrifol am rannu gwybodaeth am gyfleoedd allanol.

## Rheoli Diogelu ledled y Rhwydwaith Cyflawni QSA

- Rhaid i bob darparwr fod â threfniadau addas ar waith i reoli Diogelu yn effeithiol yn eu sefydliadau eu hunain.
- Os nad oes gan ddarparwr Bolisi Diogelu, bydd angen iddynt ddefnyddio polisi a chanllaw Diogelu CAVC nes bod ei bolisi ei hun ar waith.
- Rhaid i ddarparwyr ddefnyddio'r system My Concern er mwyn cofnodi pryderon Diogelu. Pryder yw unrhyw ddigwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau a all gael effaith andwyol ar iechyd a llesiant unigolyn. Mae'r trothwy hwn yn llawer is na'r lefel statudol, ond credwn fod hyn yn bwysig fel bod modd inni dracio diogelu a llesiant.
- Bydd y Swyddog Diogelu Arweiniol yn monitro pob pryder a nodir ar y system My Concern.
- Y system My Concern: gall aelodau'r rhwydwaith cyflawni un ai defnyddio system My Concern CAVC fel defnyddwyr cymeradwy, neu gaffael eu system My Concern eu hunain. Rhaid i aelodau sy'n dewis cael eu system My Concern eu hunain sicrhau bod y Swyddog Sicrwydd Ansawdd yn cael mynediad fel defnyddiwr cymeradwy.
- Bydd Tîm Diogelu CAVC yn cefnogi aelodau i reoli pryderon diogelu.

## Amrywiaeth a Chydraddoldeb

Mae'r rhwydwaith cyflawni yn fodlon derbyn ei gyfrifoldebau allweddol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac mae'n rhaid i bob darparwr fod â threfniadau ar waith er mwyn:

- Gwaredu gwahaniaethu, aflonyddu ac ymddygiad anghyfreithlon arall.
- Gwella cyfle cyfartal drwy waredu neu leihau anfanteision, rhoi camau gweithredu ar waith i fodloni anghenion, ac annog cyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus lle mae cyfranogiad yn anghymesur o isel.
- Meithrin perthnasoedd da drwy daclo rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.

Roedd **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn cydnabod fod anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn dal i fodoli, a chyflwynodd rhagor o hawliau ac ymrwymiadau newydd i gyrff cyhoeddus.

- Bydd dysgwyr yn cael cefnogaeth i'w **galluogi** i gyflawni eu **potensial** wrth ddysgu mewn amgylchedd sy'n gwaredu neu sy'n lleihau anfantais, sy'n rhoi camau ar waith i fodloni eu hanghenion ac sy'n annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i **symud ymlaen** yn llwyddiannus drwy eu bywydau.
- Ymrwymiad i **fodel cymdeithasol anabledd** lle byddwn yn canolbwyntio ar ddileu'r rhwystrau y gallai rhywun eu hwynebu oherwydd anableddau neu anawsterau dysgu er mwyn hyrwyddo cynhwysiant.

## Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Mae angen i Is-gontractwyr/Darparwyr geisio bodloni targedau Llywodraeth Cymru fel y'i diffiniwyd ym Manyleb y Rhaglen. Bydd hyn yn cael ei fonitro gan ddefnyddio'r Cynllun Gweithredu ar y Gymraeg.

## Iechyd a Diogelwch/Diogelwch Gwybodaeth

Bydd hyn yn cael ei fonitro ledled rhwydwaith cyflawni CAVC drwy:

- Adolygiad Iechyd a Diogelwch – Adolygiad blynyddol strwythuredig o bob ymarfer iechyd a diogelwch yn erbyn gofynion Cod Ymarfer DfES a chydymffurfiaeth gyfreithiol
- Diogelwch Gwybodaeth - ymweliad archwiliad blynyddol o ran ymrwymiadau Diogelwch Gwybodaeth CAVC.

## Archwiliad

Bydd CAVC yn cynnal archwiliadau cyfnodol ar aelodau, gan wirio'r canlynol:

- Cywirdeb Taith y Dysgwr (fframwaith Archwilio Cyffredin Estyn, Medi 2017).

- Mae angen i ddarparwyr nodi unrhyw wybodaeth ychwanegol yn amserol fel sy'n ofynnol yn ystod archwiliad PAGS/EIS.

Byddwn hefyd yn cynnal adolygiadau mewnol amrywiol. Mae angen i ddarparwyr gyfrannu'n llawn at Archwiliad Estyn a/neu Ymweliad Cyswllt Estyn pan fo angen.

## Ymweliadau Contract

Bydd y Pennaeth Dysgu ar sail Gwaith yn adolygu ac yn monitro perfformiad darparwyr yn erbyn contractau bob mis, ac yn cynnal adolygiadau contract ffurfiol o leiaf bob chwarter.

Bydd ymweliadau contract yn ystyried y meysydd canlynol i roi pob aelod mewn bandiau risg priodol yn unol â'r broses Ddiwydrwydd Dyladwy (adolygiadau blynyddol a chwarterol) a gwybodaeth berfformiad ansawdd misol:

- Perfformiad Ariannol
- Amodau cytundebol h.y. % nad yw'n flaenoriaeth
- Llwyddiannau o ran Cymwysterau/Cyflawni Fframweithiau
- Amseroldeb
- Perfformiad Cynnydd
- Deilliannau cydymffurfiaeth ansawdd
- Cydymffurfio â'r Ddyletswydd Diogelu/Atal
- Canfyddiadau archwiliadau cydymffurfio
- Y Gymraeg
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Bydd bob diwygiad contract yng nghanol y flwyddyn (cynnydd a gostyngiad) yn amodol ar gymeradwyaeth y Weithrediaeth CAVC, yn dilyn adolygu'r holl wybodaeth berthnasol.

Bydd newidiadau cymeradwy i werthoedd contractau yn cael eu ffurfioli gydag amrywiad contract wedi'i lofnodi, yn nodi manylion y newid i werth y contract.

## Deddfwriaeth a Chanllawiau

Wedi'u nodi ym Manyleb y Rhaglen, yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau penodol.



| | |
|---|---|
| **Rhif y Diwygiad:** | - |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | 24/03/2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 24/03/2026 |

## Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Grŵp, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan gadw mewn cof yr effaith ar unigolion yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb.

## Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfle i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg neu Saesneg. Mae'r dyletswyddau dan y Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Maent hefyd yn cynnwys hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg h.y. ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau bob dydd.

## Cyfeirnodau

Ceir dolen i'r holl bolisïau a'r gweithdrefnau.

## Cyfathrebu a Storio

Bydd y polisi hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Bydd y polisi hwn yn cael ei storio ar fewnrwyd y cwmni.

## Geirfa

Dim

## Cymeradwy, Newid ac Adolygu

Caiff y polisi ei adolygu bob dwy flynedd.

**Dyddiad cymeradwyo:** Mawrth 2026

**Cymeradwywyd gan:** Y Prif Fwrdd

**Dyddiad adolygu:** Mawrth 2026

**Rheolwr Cyfrifol:** Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu

**Arweinydd Gweithredol:** Dirprwy Bennaeth

**Ar gael i Fyfyrwyr:** Na



| | |
|---|---|
| **Rhif y Diwygiad:** | - |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | 24/03/2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 24/03/2026 |

**Atodiad 1 – Proses Ansawdd i Swyddogion Ansawdd y Rhwydwaith Cyflawni**

